



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Trothwyon) (Diwygio) 2023

DYDDIAD 27 Hydref 2023

GAN Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

RHEOLIADAU CAFFAEL CYHOEDDUS (CYTUNDEB AR GAFFAEL GAN LYWODRAETHAU) (TROTHWYON) (DIWYGIO) 2021

Trosolwg o Bolisi'r OS:

Mae angen diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau yn ddomestig o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Trothwyon) (Diwygio) 2021.

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:

("y Rheoliadau Caffael")

Diben y gwelliannau

Mae'r offeryn hwn yn diweddarau'r trothwyon ariannol y gellir eu hadolygu ym maes caffael cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2023/1117/contents/made>

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Pam y rhoddwyd caniatâd

Dim ond Gweinidogion Swyddfa'r Cabinet sydd â'r pŵer i wneud y newidiadau hyn i'r trothwyon ariannol. Mae angen y newidiadau hyn i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i hymrwymadau o dan y GPA. Rydym yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn i'r graddau eu bod yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig.